

CRYNODEB ATAL GWYNGALCHU ARIAN

Y PROSIECT

- 1.1 Yn 2017, cytunodd Comisiwn y Gyfraith â'r Swyddfa Gartref i adolygu a gwneud cynigion ar gyfer diwygio agweddau cyfyngedig ar y gyfundrefn atal gwyngalchu arian yn Rhan 7 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 ("DET") a'r gyfundrefn ariannu gwrthderfysgaeth yn Rhan 3 o Ddeddf Terfysgaeth 2000. Dilynodd hyn drafodaeth o syniadau i'w cynnwys yn nhrydedd Raglen ar ddeg o Ddiwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith. Prif ddiben yr adolygiad yw gwella'r broses o atal, canfod ac erlyn gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth yn y Deyrnas Unedig.¹
- 1.2 Cytunom ar y cylch gorchwyl canlynol gyda'r Swyddfa Gartref:
- (1) Bydd yr adolygiad yn cwmpasu adrodd am weithgaredd amheus er mwyn ceisio amddiffyniad yn erbyn troseddau gwyngalchu arian neu ariannu terfysgaeth mewn perthynas â'r ddwy gyfundrefn. Yn benodol, bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y darpariaethau caniatâd yn adrannau 327 i 329 ac adrannau 335, 336 a 338 o DdET 2002, ac yn adrannau 21 i 21ZC o Ddeddf Terfysgaeth 2000.
 - (2) Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried rhyngweithio'r darpariaethau caniatâd gyda'r troseddau datgelu yn adrannau 330 i 333A o DdET 2002 ac adrannau 19, 21A a 21D o Ddeddf Terfysgaeth 2000.
 - (3) I gyflawni'r diben hwnnw, bydd yr adolygiad yn dadansoddi swyddogaethau'r gyfundrefn ganiatâd, a'r buddion a'r problemau sy'n deillio ohoni, gan gynnwys:
 - (a) yr amddiffyniad a ddarperir gan y gyfundrefn ganiatâd i'r troseddau gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth;
 - (b) gallu gorfodi'r gyfraith i atal trafodion amheus ac felly ymchwilio i wyngalchu arian ac atal asedau;
 - (c) gallu gorfodi'r gyfraith i ymchwilio, ac gallu erlynwyr i sicrhau euogfarnau, o ganlyniad i gwmpas eang y troseddau gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth;
 - (d) cam-drin yr amddiffyniad awtomatig i droseddau gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth a ddarperir gan y darpariaethau caniatâd;
 - (e) achosion sylfaenol gor-adrodd amddiffynnol am drafodion amheus o dan y darpariaethau caniatâd a datgelu;
 - (f) y baich a osodir gan y darpariaethau caniatâd a'r darpariaethau datgelu ar endidau o dan ddyletswyddau i adrodd am weithgaredd amheus; ac
 - (g) effaith atal trafodion o dan y darpariaethau caniatâd ar endidau adrodd ac endidau sy'n destun adroddiadau.
 - (4) Yna, bydd yr adolygiad yn cynhyrchu opsiynau ar gyfer diwygio sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Trwy wneud hynny, bydd yr adolygiad yn ystyried y

¹ Dylid nodi trwy gydol y papur hwn fod cylch gwaith Comisiwn y Gyfraith yn cwmpasu Cymru a Lloegr yn unig.

Bedwaredd Gyfarwyddeb Atal Gwyngalchu Arian ("4GAGA")² ac argymhellion y Tasglu Gweithredu Ariannol, yn ogystal ag effaith y ddeddfwriaeth neu gyfarwyddebau newydd, fel Deddf Cyllid Troseddol 2017, y Pumed Gyfarwyddeb Atal Gwyngalchu Arian ("5GAGA")³, Cyfarwyddeb Gwasanaethau Talu 2, a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.⁴

- (5) Bydd yr adolygiad hefyd yn casglu syniadau ar gyfer diwygio ehangach a all fynd y tu hwnt i'r cylch gorchwyl a nodir uchod. Bwriedir i'r rhain fod yn sail ar gyfer datblygu'r cyfundrefnau atal gwyngalchu arian ac ariannu gwrthderfysgaeth yn y dyfodol.

- 1.3 Dechreuwyd gweithio ar y prosiect ym mis Chwefror 2018. Ers i'r prosiect ddechrau, mae nifer o randdeiliaid wedi cytuno bod yr adolygiad yn amserol. Mae mwyafrif y rhanddeiliaid wedi cadarnhau'r farn bod yna broblemau ymarferol wrth weithredu'r gyfundrefn adrodd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y sector breifat, gorfodi'r gyfraith a'r cyhoedd ehangach.

CEFNDIR

- 1.4 Nid yw'n bosibl i ddeall gwerth cywir y trosiant blynyddol o enillion troseddau a gyflawnir yn genedlaethol neu ledled y byd. Mae'r mwyafrif o arbenigwyr yn cytuno nad oes amcangyfrifon dibynadwy yn bodoli. Cafwyd ymdrechion i roi gwerth ar droseddau domestig dros y blynyddoedd. Yn 2005, amcangyfrifodd HMRC fod yr enillion blynyddol o droseddau yn y DU rhwng £19 biliwn a £48 biliwn. Daethant i'r casgliad mai £25 biliwn oedd yr amcangyfrif gorau am y swm o arian a gwyngalchwyd ar yr adeg honno.⁵ Roedd hyn yn cynrychioli ffracsiwn bach o werth cyfan y trafodion a gynhaliwyd gan fanciau yn y DU ar yr un pryd, a amcangyfrifir yn oddeutu £5,500 biliwn y flwyddyn.⁶
- 1.5 Amcangyfrifodd Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau⁷ fod y gwerth blynyddol o'r "holl enillion troseddol" yn 2009 yn oddeutu US\$2.1 triliwn (neu

² Cyfarwyddeb (UE) 2015/849 o 20 Mai 2015 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar atal y defnydd o'r system ariannol at ddibenion gwyngalchu arian neu ariannu terfysgaeth, gan ddiwygio Rheoliad (UE) Rhif 648/2012 o Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2005/60/CE Senedd Ewrop a Chyfarwyddeb y Cyngor a'r Comisiwn 2006/70/CE.

³ Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Cyfarwyddeb (UE) 2015/849 ar atal y defnydd o'r system ariannol at ddibenion gwyngalchu arian neu ariannu terfysgaeth, a diwygio Cyfarwyddebau 2009/138/CE a 2013/36/UE <http://data.consilium.europa.eu/doc/document/PE-72-2017-INIT/en/pdf> (a gyrchwyd ar 23 Mai 2018).

⁴ Rheoliad (UE) 2016/679 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diwygio Cyfarwyddeb 27 Ebrill 2016 ar ddiogelu pobl naturiol o ran prosesu data personol ac ar symud data o'r fath yn rhydd, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 95/46/CE (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data).

⁵ Corfforaeth Dinas Llundain, *Anti-Money Laundering Requirements: Costs, Benefits and Perceptions* (Mehefin 2005), t 15.

⁶ Corfforaeth Dinas Llundain, *Anti-Money Laundering Requirements: Costs, Benefits and Perceptions* (Mehefin 2005), t 16.

⁷ Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau (UNODC): *Estimating illicit financial flows resulting from drug trafficking and other transnational organized crimes: Research Report* (Hydref 2011); prif ddarganfyddion, a nodir yn *UK national risk assessment of money laundering and terrorist financing* (Trysorlys ei Mawrhydi a'r Swyddfa Gartref, Hydref 2015); a EUROPOL *Criminal Asset Recovery in the EU: Does crime still pay? Survey of statistical information 2010-2014*; 2016, t.5. Mae amcangyfrifon o drosiant

3.6% cynnyrch domestic gros (“CDG”) byd-eang ar gyfartaledd (2.3% i 5.5%)). Roedd y swm a amcangyfrifwyd ei fod ar gael ar gyfer gwyngalchu yn yr un flwyddyn drwy'r system ariannol gyfwerth â thua US\$1.6 triliwn (sy'n gyfwerth â 2.7% o CDG byd-eang ar gyfartaledd (2.1% i 4%)). Fel canlyniad o'r anawsterau o gyrraedd at amcangyfrifon, dengys academyddion sut mae tystiolaeth yn cael ei hailadrodd a'u ailgylchu dros adroddiadau swyddogol gwahanol.⁸

- 1.6 Un o'r anawsterau sy'n gynhenid wrth amcangyfrif gwerth enillion troseddau yw bod llawer o fathau o weithgaredd troseddol yn arian dwys. Bydd unrhyw droseddwr sydd am wario neu fuddsoddi arian a gafwyd o'u troseddau heb ddenu sylw gorfodi'r gyfraith yn ceisio cuddio ffynhonnell eu harian. Er bod technegau yn amrywio,⁹ cytunir yn gyffredinol mai gwyngalchu arian yw'r ffordd of brosesu enillion troseddau, er mwyn cuddio eu gwraidd anghyfreithlon.
- 1.7 O ystyried yr anawsterau wrth nodi cronfeydd troseddol unwaith y byddant o fewn y system ariannol, mae cudd-wybodaeth o'r sector preifat yn y cyfnod lleoli yn hanfodol. Mae'r diogelwch, cyfleustra a chyfreithlondeb a fynegir gan gyfrif banc yn golygu y bydd y rhan fwyaf o bobl, gan gynnwys troseddwr, yn cynnal rhai o'u materion ariannol trwy sefydliadau ariannol mawr. Gall banciau fonitro gweithgaredd anarferol a rhoi gwybodaeth i'r awdurdodau o fewn fframwaith cyfreithiol a bennwyd gan Ran 7 o DdET.¹⁰ Yn y modd hwn, maent yn cyflawni swyddogaeth gorfodi'r gyfraith hanfodol.

Y GYFRAITH GYFREDOL

Trosolwg

- 1.8 Gellir rhannu'r gyfundrefn atal gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth bresennol yn y DU yn bedair rhan.
 - (1) Derbyniodd DET Gydsyniad Brenhinol ar 24 Gorffennaf 2002. Bwriad Rhan 7 oedd i ddisodli a gwella'r ddeddfwriaeth wyngalchu arian flaenorol. Creodd Rhan 7:
 - (a) dri throsedd o wyngalchu arian sy'n berthnasol i enillion unrhyw drosedd;¹¹
 - (b) rhwymedigaethau cyfreithiol i adrodd amheuaeth o wyngalchu arian, a atgyfnerthir gan droseddau am fethu a'u datgelu;¹²

troseddau cyfundrefnol ledled y byd, a nodir yn Nhabl 31, tudalen 38, i Adroddiad UNODC 2011, wedi'i ailgynhyrchu yn Atodiad A.

⁸ Duyne PC van Harvey J. & Gelemerova L (2016), “*The Monty Python Flying Circus of Money Laundering and the Question of Proportionality*”, Pennod 10 yn “*Illegal Intrepreneurship, Organised Crime and Social Control: Essays in Honour of Professor Dick Hobbs*” (Gol.) G. Antonopolous, Springer, Studies in Organised Crime 14.

⁹ A Kennedy, “Dead Fish across the Trail: Illustrations of Money Laundering Methods” (2005) 8 *Journal of Money Laundering Control*, 306-315. Ar gyfer adolygiad o'r technegau gwyngalchu arian cyfredol, gweler hefyd Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, *National Strategic Assessment of Serious and Organised Crime*(2018).

¹⁰ Bydd y gyfundrefn gyfochrog o dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 hefyd yn cael ei hystyried yn y papur hwn.

¹¹ DET, aa 327-329.

¹² DET, aa 330-332.

- (c) "cyfundrefn caniatâd" ategol o ddatgeliadau awdurdodedig sy'n cynnig amddiffyniad rhag atebolrwydd troseddol;¹³ a
 - (d) gwaharddiad ar rybuddio'r gwyngalchwr arian (honedig) bod adroddiad wedi'i wneud i'r awdurdodau neu fod ymchwiliad wedi dechrau ("tipio i ffwrdd").¹⁴
- (2) Mae cyfundrefn gyfatebol yn gweithredu mewn perthynas ag ariannu gwrthderfysgaeth ac wedi'i chynnwys yn Rhan 2 o Ddeddf Terfysgaeth 2000. Byddwn yn ystyried ariannu terfysgaeth yn fanwl ym Mhennod 3.
 - (3) Ychwanegwyd at ddarpariaethau atal gwyngalchu arian domestig gan Gyfarwydddebau olynol yr UE ar wyngalchu arian. Mae'r rhain wedi'u gweithredu gan Reoliad yn y DU. Cytunwyd ar y 4GAGA ym mis Mehefin 2015 a'i gweithredu yn Rheoliadau Gwyngalchu Arian, Ariannu Terfysgaeth a Throsoglwyddo Cronfeydd (Gwybodaeth am y Talwr) 2017 ("Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2017"). Mae Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2017 yn creu system o rwymedigaethau ar gyfer busnesau o dan oruchwyliaeth yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r cyrff proffesiynol a rheoleiddio perthnasol a gydnabyddir o fewn y Rheoliadau. Ar adeg ysgrifennu, mae'r DU yn trafod ei ymadael o'r UE. Mae'n aneglur sut y bydd hyn yn effeithio ar oblygiadau'r DU o dan gyfraith yr UE mewn perthynas ag atal gwyngalchu arian ac ariannu gwrthderfysgaeth. Fodd bynnag, rhagdybir at ddibenion y papur hwn bod yr ymgyrch i gysoni safonau ar draws y wladwriaeth gymaint â phosib yn annhebygol o newid ac y byddwn yn parhau i gydymffurfio â thelerau 4GAGA am y dyfodol rhagweladwy.
 - (4) Tra bod DET a'r 4GAGA yn sylfaen i gyfundrefn atal gwyngalchu arian y DU, rhaid ystyried cyfraith ddomestig yng nghyd-destun safonau rhyngwladol cytunedig. Mae'r DU yn un o aelodau sefydliadol y Tasglu Gweithredu Ariannol ("TGA"), corff rhynglywodraethol a sefydlwyd ym 1989 i osod safonau mewn perthynas â mynd i'r afael â gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth. Cydnabyddir ei argymhellion fel y safon rhyngwladol ar gyfer rheoleiddio atal gwyngalchu arian. Roedd yr argymhellion yn nodi fframwaith o fesurau i'w gweithredu gan ei aelodau a'i fonitro trwy broses adolygu cyfoedion o werthusiad ar y cyd.¹⁵

Y gyfundrefn caniatâd

Datgeliadau angenrheidiol ac awdurdodedig

- 1.9 Mae'r gyfundrefn caniatâd yn cyfeirio at y broses lle gall unigolyn sy'n amau ei fod yn delio ag enillion troseddau geisio caniatâd i gwblhau trafodiad trwy ddatgelu ei amheuaeth i Uned Gudd-wybodaeth Ariannol y DU ("UGADU") sydd wedi'i lleoli yn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ("ATC"). Er mwyn deall sut mae'r gyfundrefn caniatâd yn gweithredu, mae angen ystyried y mathau o ddatgeliad y gallai banc neu

¹³ DET, aa 327(2)(a), 328(2)(a), 329(2)(a).

¹⁴ DET, a 330A.

¹⁵ Gweler <http://www.fatf-gafi.org/>. Gellir dod o hyd i Adroddiadau Gwerthuso Cydfuddiannol yn [http://www.fatf-gafi.org/publications/mutualevaluations/?hf=10&b=0&s=desc\(fatf_releasedate\)](http://www.fatf-gafi.org/publications/mutualevaluations/?hf=10&b=0&s=desc(fatf_releasedate)) (ymwelwyd olaf ar 24 Ebrill 2018).

fusnes eu gwneud pan fyddant yn amau bod rhywun yn ymwneud â gwyngalchu arian neu, er enghraifft, yn dod i feddiant yr hynny maent yn amau sy'n enillion trosedd.

- 1.10 Gall banc neu fusnes wneud dau fath o ddatgeliad: "datgeliadau gofynnol" a "datgeliadau awdurdodedig". Byddwn yn ystyried hyn yn fanylach ym Mhennod 2, ond at ddibenion presennol, y gwahaniaeth pwysig yw p'un a oes angen y datgeliad yn ôl y gyfraith neu os yw'r adroddwr yn dymuno amddiffyn ei hun rhag talu ffi gwyngalchu arian posibl.
- 1.11 Mae datgeliadau gofynnol yn cael eu sbarduno gan un o'r dyletswyddau statudol i'w datgelu o dan DET lle mae rhywun yn gwybod, yn amau neu sydd â sail resymol i wybod neu amau bod person yn cymryd rhan mewn gwyngalchu arian.¹⁶ Os na chânt eu gwneud, mae'r person a ddylai fod wedi adrodd yn atebol am erlyn am drosedd.
- 1.12 Mewn cyferbyniad, mae gan ddatgeliadau awdurdodedig swyddogaeth ddeuol: maent yn darparu gwybodaeth i asiantaethau gorfodi'r gyfraith, ac yn amddiffyn y datgelydd rhag atebolrwydd troseddol perthnasol. Er enghraifft, efallai y bydd banc yn amheus bod arian mewn cyfrif cwsmer yn enillion trosedd. Os yw eu cwsmer yn gofyn i'r banc wneud taliad yn unol â'i fandad, gwneir datgeliad i gael caniatâd i barhau gyda'r trafodiad a dod â'r unigolyn o fewn eithriad statudol sydd i bob tebyg yn atal unrhyw gostau gwyngalchu arian yn erbyn yr adroddwr yn y dyfodol.¹⁷
- 1.13 Er y bydd y ddau fath o ddatgeliad yn cael eu harchwilio'n fanwl yn y papur hwn, datgeliadau awdurdodedig a'r eithriad caniatâd ("y gyfundrefn ganiatâd") bydd prif ffocws y papur hwn.

Adroddiadau gweithgaredd amheus

- 1.14 Adroddiadau gweithgaredd amheus ("AGAau") yw'r mecanwaith y mae'r sector preifat yn ei ddefnyddio i wneud datgeliadau mewn perthynas â gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth o dan DET.¹⁸ AGA yw'r fformat y mae'r UGADU yn derbyn gwybodaeth. Mae'r UGADU yn hwyluso'r broses datgelu drwy ymddwyn fel canolbwynt ar gyfer cudd-wybodaeth rhwng y sector preifat ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Pan gyflwynir AGA, caiff ei ddadansoddi a'i ddarparu ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ymchwilio a phenderfynu a ddylid dilyn trywydd achos troseddol neu sifil ymhellach. Oherwydd yr amser a gymerir i gynnal ymchwiliad ac ymyrryd i gadw asedau troseddol, mae'r cynllun yn gorfodi'r banc i beidio â phrosesu'r trafodiad unwaith y cyflwynir AGA. Mae hynny'n caniatáu asiantaethau orfodi'r gyfraith i wneud penderfyniad cytbwys ynghylch a ddylid rhoi caniatâd i'r trafodiad.
- 1.15 Gall AGAau o ansawdd uchel fod yn ffynhonnell o gudd-wybodaeth hanfodol.¹⁹ Gallant ddarparu tystiolaeth o wyngalchu arian ar waith. Yn ogystal, mae AGAau yn un o'r dulliau sylfaenol o rannu gwybodaeth i gynhyrchu cudd-wybodaeth i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ymchwilio ac erlyn troseddau'n fwy cyffredinol.²⁰ Gall nodi'r enillion o weithgaredd troseddol sefydlu llwybr ymchwiliol sy'n arwain

¹⁶ Deddf Enillion Troseddau 2002, aa 330, 331 a 332.

¹⁷ Deddf Enillion Troseddau 2002, aa 327(2), 328(2) a 329(2).

¹⁸ Yn fwy penodol, dyma'r sector rheoledig sy'n cael ei effeithio'n fwyaf difrifol gan y gyfundrefn AGA. Diffinir y sector rheoledig yn Atodlen 9 Deddf Enillion Troseddau 2002.

¹⁹ Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, *Suspicious Activity Reports Annual Report (2017)*, t 5.

²⁰ Trysorlys ei Mawrhydi a'r Swyddfa Gartref, *National risk assessment of money laundering and terrorist financing*, (Hydref 2017).

asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ôl i'r gweithgaredd troseddol gwreiddiol. Gall AGA ysgogi ymchwiliad neu ddarparu adnodd defnyddiol ar gyfer ymchwiliad sydd eisoes yn mynd rhagddo.

- 1.16 Gall AGAau lluosog ar yr un pwnc ysgogi ymchwiliadau i darged newydd. Er enghraifft, os yw banc a chwmni cyfreithiol yn gweithio ar yr un trafodiad ac mae'r naill un yn adrodd gweithgaredd amheus, mae hyn yn darparu darlun cudd-wybodaeth cyfoethocach i'r awdurdodau. Mae gwybodaeth o'r adroddiadau hyn yn arwain at adennill enillion troseddau trwy gynorthwyo mewn gorchmynion atal, gorchmynion atafaelu a chymryd arian parod. Er bod ansawdd y cudd-wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn dibynnu, yn rhannol, ar ansawdd yr wybodaeth a ddarperir yn y AGA. Mae AGAau o ansawdd israddol yn fwy dwys i brosesu o ran o amser, yn gallu cyfrannu at oediadau, ac yn y pen draw yn dal i fod o ddiffyg effaith neu werth.

Cost i'r economi

- 1.17 Mae'r gyfundrefn adrodd hon yn effeithio ar yr economi cyfreithlon mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae cost sylweddol i fusnesau o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'u rhwymedigaethau adrodd. Yn ail, mae cost i'r trethdalwr wrth adnoddu derbyn a dadansoddi adroddiadau i gynorthwyo asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Mae'n werth ystyried a yw cost y gyfundrefn mor gymesur ac effeithlon a phosib.
- 1.18 Mae lefel y baich a roddir ar yr adroddwr yn dibynnu ar p'un a ydynt yn gweithredu o fewn y sector rheoledig neu'r tu allan iddo. Mae'r ddeddfwriaeth yn dod ag ystod eang o fusnesau o fewn cwrpas y sector rheoledig. Er enghraifft, mae'n cynnwys sefydliadau ariannol, rhai sy'n darparu gwasanaethau cyfrifyddu, gwasanaethu cynghori treth neu fuddsoddi, rhai sy'n cymryd rhan mewn trafodion eiddo ariannol neu go iawn (gan gynnwys gweithwyr proffesiynol cyfreithiol), ymarferwyr ansolfedd, gwerthwyr gwerthoedd mawr a chasinos ymhlith eraill.²¹
- 1.19 Y sector adrodd mwyaf yw bancio. Rhwng Hydref 2015 a Mawrth 2017, roedd banciau'n cyfrif am 82.85% o'r 634,113 o AGAau a gyflwynwyd i UGADU.²² Mae ychwanegu at ei gilydd y canrannau o AGAau o bob math arall o sefydliadau credyd neu ariannol yn dod â'r ffigwr hwn i 95.78%. Gan amlaf, mae'r sector ariannol yn dwyn y baich mwyaf.²³ Mae hyn yn ddealladwy pan ystyriwn y nifer o drafodion a brosesir gan y sector ariannol. Mae'r banciau manwerthu mawr yn cynnal trafodion ar raddfa ddiwydiannol. Mae un o'r banciau adrodd mwyaf yn derbyn, ar gyfartaledd, 3300 o rybuddion awtomatig bob mis sy'n tynnu sylw at weithgaredd anarferol. Fodd bynnag, gall hyn amrywio a gwyddys iddo gynyddu i dros 7,000 o rybuddion y mis. Yn ogystal, bydd 14,200 o adroddiadau mewnol pellach (yn cynnwys atgyfeiriadau twyll) o weithgaredd gan staff a allai fod yn amheus yn cael eu cyflwyno bob mis.
- 1.20 Amcangyfrifwyd bod cost y system atal gwyngalchu arian i fanc adrodd mawr oddeutu degau o filiynau o bunnoedd y flwyddyn.²⁴ Amcangyfrifodd Cymdeithas Bancwyr Prydain (Cyllid y DU bellach) fod ei haelodau'n gwario o leiaf £5 biliwn y flwyddyn i

²¹ Mae DET 2002, a 330(12) ac Atodlen 9 "yn cael effaith at ddiben pennu beth yw busnes yn y sector rheoledig."

²² Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, *Suspicious Activity Reports Annual Report* (2017), ffigur i.

²³ Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, *Suspicious Activity Reports Annual Report* (2017), t 12 to 13.

²⁴ "Mae sefydliadau unigol yn neilltuo symiau mawr iawn o arian i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol-gymaint â £36 miliwn y flwyddyn o un banc." (HL Paper 132-1 *Money Laundering and the financing of terrorism – European Union Committee*, Sesiwn 2008-2009, cyfrol 1 yn para 124).

gydymffurfio troseddau ariannol craidd, gan gynnwys systemau a rheolaethau gwell a recriwtio staff.²⁵ Gall costau uchel sy'n cael eu priodoli i ofynion atal gwyngalchu arian leihau hyder mewn effeithlonrwydd y system.²⁶ Mae hefyd yn hanfodol i ganfod s oes cydbwysedd cywir rhwng enw da a chystadleurwydd, ac os yw hyn wedi'i daro yn y DU. Mae rheoleiddio atal gwyngalchu arian yn hanfodol er mwyn sicrhau uniondeb sector cyllid y DU. Fodd bynnag, mae potensial i sefyllfa gystadleuol y DU gael ei danseilio gan reoleiddio diangen neu reoliad sy'n methu â chynhyrchu canlyniadau dilysadwy.²⁷

- 1.21 Er mai'r sector cyllid yw'r sector adrodd mwyaf, mae costau cydymffurfio sylweddol ar gyfer pob sector sydd gyda rhwymedigaethau adrodd. Fodd bynnag, mae'n bosib bydd cost cydymffurfio yn anodd ei fesur. Ym mis Rhagfyr 2009, ymatebodd Cymdeithas y Gyfraith i alwad am dystiolaeth fel rhan o adolygiad y Llywodraeth o Reoliadau Gwyngalchu Arian 2007. Cynhaliodd Cymdeithas y Gyfraith arolwg o gostau ei haelodau yn 2008 ac amlygodd y problemau sy'n rhan hanfodol o amcangyfrif cost cydymffurfio â'r gyfundrefn atal gwyngalchu arian. Nododd ei haelodau anawsterau wrth fesur materion fel monitro cleientiaid a thrafodion ar gyfer arwyddion rhybudd a thrafod amheuan ac adroddiadau mewnol wrth benderfynu a oes angen gwneud AGA neu peidio.
- 1.22 Adroddodd Cymdeithas y Gyfraith fod y rhan fwyaf o gwmnïau ar gyfartaledd yn gwario tua pedair awr yr wythnos yn trafod amheuan ac yn gwneud datgeliadau. O ran yr amser a dreuliodd gan y person sy'n gyfrifol am wneud adroddiadau (y "swyddog enwebedig"), dywedodd 50% ohonynt ei fod yn eu costio hyd at £500 y flwyddyn, dywedodd y 25% uchaf ei fod yn eu costio £7,500 neu fwy, gydag un cwmni yn adrodd costau o thua £164,000. Yn 2009, cynhaliwyd arolwg pellach o rai o'r 100 prif gwmni. O'r 21 o gwmnïau a ymatebodd, roedd amcangyfrifon costau am flwyddyn yn amrywio rhwng £4,000 a £300,000 mewn ffioedd a gollwyd ac amser taladwy. Roedd cyfanswm y gwariant ar gostau cydymffurfiaeth atal gwyngalchu arian mesuradwy ar gyfer pob un o'r cwmnïau yn amrywio o £26,800 i £1,035,000 y flwyddyn. Ar gyfer pob un o'r 21 o gwmnïau ynghyd, roedd bron yn £6.5 miliwn.²⁸ Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys costau ehangach o ddatblygu systemau atal gwyngalchu arian, cynnal diwydrwydd dyladwy, hyfforddiant a chyflogau staff a all fod yn sylweddol mewn sefydliadau mwy.
- 1.23 Fel y byddwn yn trafod ym Mhennod 5, er nad yw'r sector cyfreithiol yn cynhyrchu'r un nifer o AGAau â'r sector cyllid, gall y AGAau a gyflwynir fod yn fwy cymhleth mewn natur. Efallai na fydd faint o adnoddau sydd eu hangen i gynnal diwydrwydd dyladwy a chyflwyno'r datgeliadau hyn gymesur â gwerth yr eiddo troseddol dan sylw neu ddifrifoldeb y drosedd ymhob achos.

²⁵ Y Swyddfa Gartref a Thrysorlys EM ar y cyd, *Action Plan for anti-money laundering and counter-terrorist finance* (2016), para 2.1.

²⁶ Corfforaeth Dinas Llundain, *Anti-Money Laundering Requirements: Costs, Benefits and Perceptions* (Mehefin 2005), t 9.

²⁷ Corfforaeth Dinas Llundain, *Anti-Money Laundering Requirements: Costs, Benefits and Perceptions* (Mehefin 2005), t 4.

²⁸ Comisiwn y Gyfraith, *The costs and benefits of anti-money laundering compliance for solicitors: Response by the Law Society of England and Wales to the call for evidence in the Review of the Money Laundering Regulations 2007* (Rhagfyr 2009), t 25-27.

- 1.24 Yn ogystal â'r costau i'r sector preifat, mae'n hanfodol bwysig bod adnoddau gorfodi'r gyfraith yn cael eu defnyddio'n briodol. Mae'r ATC, sy'n gyfrifol am oruchwylio'r UGADU, wedi cadarnhau bod y nifer o AGAau yn cynyddu. Yn ei hadroddiad blynyddol diweddaraf, amlygodd yr NCA dwf sylweddol yng nghyfanswm nifer y AGAau a'r nifer o achosion lle gofynnwyd am ganiatâd (y cyfeirir ato bellach gan UGADU fel amddiffyn yn erbyn gwyngalchu arian neu "DAML").²⁹
- 1.25 Ar gyfartaledd, derbynnir 2000 o AGAau pob diwrnod gwaith gan UGADU. O'r ffigwr hwn, ar gyfartaledd bydd 100 o AGAs yn gofyn am ganiatâd i fwrw ymlaen â thrafodiad ariannol (AGAau DAML ac amddiffyn yn erbyn ariannu terfysgaeth ("DATF")).³⁰ Mae 25 aelod o staff yn ymroddedig i brosesu AGAau DAML a DATF yn y UGADU. Mae cynnydd yn y nifer o AGAau yn cael effaith ganlyinol ar amseroedd prosesu. Mae hwn yn broblem anodd pan fo angen gwybodaeth bellach oherwydd bod y AGA o ansawdd gwael neu lle mae AGA yn gofyn am fewnbwn gan un o'r asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Yn seiliedig ar y nifer cyfredol o AGAau DAML, mae uwch reolwyr yn treulio tua 20-30% o'u hamser yn gwneud penderfyniadau ar ganiatâd.³¹ Roedd pob rhanddeiliad yr ydym wedi siarad â hwy yn teimlo bod y broses ganiatâd yn cael ei orlwytho ac yn arwain at oedi.
- 1.26 Lle mae AGAau yn ddianghenraid, o effaith ymarferol prin neu yn syml o ansawdd gwael, mae adnoddau hanfodol yn cael eu dargyfeirio o'r ymchwiliad ac erlyn trosedd. Fel y bydd y papur hwn yn esbonio, mae gan y materion hyn ganlyniadau pendant i'r sector preifat, asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac i'r cyhoedd.
- 1.27 Er mwyn datrys rhai o'r problemau pwysicaf, mae Comisiwn y Gyfraith yn gofyn i ymgylgoreion am eu barn ar addasrwydd ystod o ddatrysiadau arfaethedig.

Y PAPUR YMGYNGHORI

Pwrpas y papur

- 1.28 Mae gan y papur ymgynghori ddau brif nod: nodi'r problemau pwysicaf ac ymgynghori ar ddiwygio'r gyfundrefn ganiatâd; ac i gynhyrchu ac ystyried syniadau ar gyfer diwygio tymor hir. Bwriad ein cynigion yw gwella atal, canfod ac erlyn gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth yng Nghymru a Lloegr.³² Byddwn yn ystyried os yw'r cyfundrefn presennol yn gymesur ac yn effeithlon.
- 1.29 Ar ôl cyfarfodydd cychwynnol gyda rhanddeiliaid, nodir bod y materion canlynol yn achosi anawsterau penodol yn ymarferol:
- (1) y nifer fawr o ddatgeliadau i'r UGADU;³³

²⁹ Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, *Suspicious Activity Reports Annual Report (2017)* t 6.

³⁰ Cyfeirir at y AGAau Caniatâd hyn bellach fel AGAau "Amddiffyn yn Erbyn Gwyngalchu Arian" (DAML) neu AGAau "Amddiffyn yn Erbyn Ariannu Terfysgaeth" (DATF).

³¹ Cyfweiliadau gyda Staff UGADU ar 28 Mawrth 2018.

³² Er bod Deddf Enillion Troseddau 2002 a Deddf Terfysgaeth 2000 yn berthnasol i'r DU gyfan, mae ffocws y prosiect yn gyfyngedig i Gymru a Lloegr.

³³ 634,113 rhwng Hydref 2015 a Mawrth 2017, y bu 27,471 ohonynt yn AGAau DAML (ATC, *Suspicious Activity Reports Annual Report (2016)* t 6).

- (2) y gwerth cudd-wybodaeth isel ac ansawdd gwael llawer o'r datgeliadau a wneir yn unol â'r rhwymedigaethau cyfreithiol presennol;
- (3) camddealltwriaeth yr eithriad datgelu awdurdodedig gan rai adroddwyr;
- (4) camdriniaeth o'r eithriad datgelu awdurdodedig gan nifer fach o fusnesau ac unigolion anonest;
- (5) adrodd amddiffynnol am drafodion amheus, sydd yn arwain at nifer uchel o adroddiadau safon gwael;
- (6) baich cyffredinol o gydymffurfiaeth ar endidau o dan ddyletswyddau i adrodd am weithgareddau amheus; ac
- (7) effaith atal trafodion ar endidau adrodd a'r rheiny sy'n destun AGA.

1.30 Yn ogystal, mae'r anawsterau cyfreithiol canlynol wedi'u nodi:

- (1) ymagwedd "bob trosedd" lle bydd unrhyw ymddygiad troseddol sy'n creu budd i'r troseddwr yn eiddo troseddol ac effaith ganlynol hyn ar gwmpas adrodd;
- (2) y terminoleg a ddefnyddir yn Rhan 7 DET ac ystyr caniatâd priodol;
- (3) ystyr amheuaeth a'i gymhwysiad gan y rhai sydd â rhwymedigaethau i adrodd am weithgaredd amheus;
- (4) hyblygrwydd, eiddo troseddol a materion sy'n deillio o gymysgu cronfeydd troseddol ac heb fod yn droseddol;
- (5) y raddau a ddylid rhannu gwybodaeth rhwng endidau sector preifat;
- (6) y diffiniad eang o eiddo troseddol sy'n berthnasol i enillion unrhyw drosedd ac nad oes ganddi unrhyw isafswm gwerth trothwy; a
- (7) beth ddylai fod yn esgus rhesymol o fewn Rhan 7 o'r DdET.

Cynllun y papur

Y gyfraith gyfredol a'i heffeithiolrwydd

1.31 Mae Penodau 2 a 3 yn nodi'r gyfraith gyfredol sy'n ymwneud â gweithrediad y gyfundrefn adrodd am weithgarwch amheus mewn perthynas â gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth.

1.32 Ym Mhennod 2, trwy ddefnyddio'r esiimpl o fanc mawr, rydym yn amlinellu'r ffordd a chaiff eu monitro gan y sector preifat. Edrychwn ar ddatgeliadau gofynnol ac awdurdodedig, gan ganolbwyntio ar y rhwymedigaethau ar adroddwyr a'r broses o wneud datgeliadau i'r UGADU. Rydym hefyd yn ystyried y troseddau gwyngalchu arian, gan gynnwys rhai o'r cysyniadau allweddol - fel eiddo troseddol, amheuaeth ac ymddygiad troseddol - sydd wedi creu materion yn ymarferol. Ymhellach, ystyriwn yr eithriadau neu'r amddiffynfeydd sydd ar gael i'r troseddau hynny. Rydym hefyd yn amlinellu'r darpariaethau gwaredu, lle mae unigolyn yn peryglu atebolrwydd troseddol os ydynt yn hysbysu pwnc datgeliad neu ymchwiliad bod AGA wedi'i gyflwyno. Rydym yn archwilio'r materion sy'n codi o'r darpariaethau hyn yn ymarferol. Rydym yn crynhoi'r ddeddf bresennol ar rannu gwybodaeth rhwng y sector preifat a'r ATC. Yn olaf, edrychwn ar ofynion rheoleiddiol ar fanciau a busnesau a sut mae eu cydymffurfiaid yn cael ei oruchwylio a'i fonitro.

- 1.33 Ym Mhennod 3, rydym yn ystyried amcanion y gyfundrefn ariannu terfysgaeth a sut maent yn wahanol i wyngalchu arian. Edrychwn ar y gyfundrefn datgelu i'r graddau y mae'n wahanol i'n crynodeb ym Mhennod 2. Rydym yn archwilio'r troseddau ariannu terfysgaeth yn Neddff Terfysgaeth 2000 a'r eithriadau neu amddiffynfeydd perthnasol. Rydym hefyd yn edrych ar y darpariaethau gwaredu yng nghyd-destun ariannu terfysgaeth. Rydym yn arsylwi, er bod yna debygrwydd ar draws y cyfundrefnau gwyngalchu arian ac ariannu terfysgol, mae yna hefyd wahaniaethau pwysig i'w hystyried Yn benodol, nid yw'r amcanion polisi rhwng y ddwy gyfundrefn o reidrwydd yr un peth; mae atal ymosodiadau terfysgol ac amharu ar weithgaredd troseddol wedi'i drefnu yn nodau ar wahân a gwahanol. Gall y dulliau a ddefnyddir i godi arian ar gyfer terfysgaeth hefyd fod yn wahanol i dechnegau gwyngalchu arian. Am y rheswm hwn, bydd y mathau o gudd-wybodaeth sy'n ddefnyddiol i orfodi'r gyfraith hefyd yn wahanol. Yn olaf, gallai'r risg o niwed sy'n deillio o gyfundrefn ariannu gwrthderfysgaeth aneffeithiol fod yn fygythiad uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd. Rydym yn dod i'r casgliad trwy ddadansoddi rhai o'r materion sy'n codi o'r gyfundrefn gyfredol ac yn nodi bod y prif fater yn ymwneud â chymhwysio amheuaeth gan adroddwyr.
- 1.34 Ym Mhennod 4, rydym yn archwilio effeithiolrwydd y gyfundrefn ganiatâd gyfredol trwy ddadansoddi'r ystadegau ar ddatgeliadau awdurdodedig³⁴ a dod i'r casgliad ei bod yn debygol nad yw'r mwyafrif helaeth o AGAau caniatâd yn arwain at atal neu atafaelu asedau.
- 1.35 Rydym yn arsylwi bod dau gafeat pwysig i'r dadansoddiad hwn. Yn gyntaf, mae'n anodd cyfrif am amharu ar weithgaredd troseddol. Yn ail, mae yna ddiffyg data gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith ynghylch pryd mae AGA yn rhan annatod o ymchwiliad neu'n arwain at erledigaeth. Cydnabyddwn nad yw ataliaeth ac ymafael yn cynricholi'r unig ffyrdd o ddangos effeithiolrwydd AGA. Gallant hefyd gynorthwyo gyda ymchwiliad mewn sawl ffordd;
- (1) trwy ddarparu cudd-wybodaeth a gall seilio ymchwiliadau arnynt;
 - (2) trwy ddarparu cudd-wybodaeth i gynorthwyo a ddatblygu ymchwiliadau eisoes i weithgareddau troseddol;
 - (3) trwy ddarparu cudd-wybodaeth ar droseddwyr a'u rhwydweithiau, a gellir fod o ddefnydd yn y dyfodol fel rhan o'r broses cyffredinol o gasglu gwybodaeth; a
 - (4) trwy ddarparu cudd-wybodaeth dibynadwy i nodi troseddwyr sydd â asedau a enillwyd trwy droseddoldeb.
- 1.36 Arsylwn bod UGADU yn derbyn y nifer uchaf o AGAau o'i gymharu â Thaleithiau yr UE ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau. Rydym yn nodi pedair prif bwysau ar gyfer newid: y trothwy isel ar gyfer troseddoldeb, atebolrwydd troseddol unigol, dryswch ymhlith y rhai yn y sector rheoledig ynghylch eu rhwymedigaethau adrodd a chymhwysio amheuaeth. Rydym yn mynd ymlaen i archwilio'r ffactorau hyn yn y penodau sydd yn dilyn.

³⁴ Cyfeirir ato bellach gan yr ATC fel AGAau DAML. Trafodir y newid mewn terminoleg hyn ym Mhennodau 2 ac 12.

Problemau enbyd a datrysiadau posibl

1.37 Mae Penodau 5 i 13 yn nodi'r problemau pwysicaf gyda'r gyfraith gyfredol, ac yn nodi rhai datrysiadau dros dro i wella'r gyfundrefn gyfredol.

Pennod 5

1.38 Ym Mhennod 5, rydym yn trafod yr ymagwedd "bob trosedd" tuag at ymddygiad troseddol yn DET a'r ffaith bod enillion unrhyw drosedd yn dod o fewn y diffiniad o eiddo troseddol. Rydym yn ystyried canlyniadau'r ymagwedd hon a'i heffaith ar nifer yr adroddiadau a wneir. Rydym yn dadansoddi problemau penodol y mae'r sector cyfreithiol yn eu hwynebu wrth nodi'r hyn a ystyrir fel achosion "technegol" o wyngalchu arian; lle mae'n rhaid i gyfreithwyr gydymffurfio'n llwyr â'u rhwymedigaethau ond ystyried bod gwerth cudd-wybodaeth eu datgeliad yn isel neu'n ddibwys.

1.39 Rydym yn archwilio'r ymagwedd amgen "troseddau difrifol" a'r manteision a'r anfanteision o symud i ffwrdd o ddiffiniad holl-gwmpasol o ymddygiad troseddol. Rydym yn ffurfio'r farn dros dro y gallai newid i ymagwedd troseddau difrifol fod yn broblem ac yn annymunol. Fodd bynnag, rydym yn gwahodd sylwadau wrth ymgylgoreion ar rinweddau tri dewis arall i'r ymagwedd "bob trosedd" gyfredol:

- (1) ymagwedd "troseddau difrifol" yn seiliedig ar restr o droseddau neu gosb trothwy;
- (2) ehangu amddiffyniad esgus rhesymol i'r rhai nad ydynt yn adrodd am droseddau nad ydynt yn rhai difrifol (fel y gellid eu diffinio mewn atodlen);
- (3) cynnal cyfundrefn ddatgelu gofynnol ffurfiol am droseddau ar restr o droseddau difrifol ond gan ddarparu cynllun gwirfoddol i'r sector cofrestredig dynnu sylw'r UGADU at unrhyw achosion nad ydynt yn rhai difrifol.

Pennod 6

1.40 Mae Pennod 6 yn ystyried y cysyniad allweddol o amheuaeth. Rydym yn arsylwi bod DET yn gosod trothwy isaf yr elfen feddyliol am y troseddau gwyngalchu arian ar amheuaeth. Dyma hefyd y trothwy isaf ar gyfer rhwymedigaethau adrodd.

1.41 Rydym yn ystyried pwysigrwydd y cysyniad yn cael ei ddeall a'i ddefnyddio'n gyson yng nghyd-destun adrodd am cyfaint ac ansawdd yr adroddiadau. Rydym yn amlinellu ystyr cyffredin amheuaeth a'i le yn hierarchaeth bai yn y gyfraith droseddol. Trafodwn ystyr amheuaeth mewn cyd-destun ymchwiliol ac ystyried ymagweddau awdurdodaethau eraill.

Pennod 7

1.42 Ym Mhennod 7, edrychwn ar sut mae'r cysyniad o amheuaeth wedi'i chymhwyso yng nghyd-destun troseddau gwyngalchu arian. Rydym yn archwilio'r gyfraith achosion ar amheuaeth ac ar sail resymol i'w amau. Rydym hefyd yn ystyried y canllawiau diwydiannol ar amheuaeth a'i gymhwysiad.

1.43 Rydym yn amlinellu beirniadaethau'r prawf amheuaeth yng nghyd-destun y troseddau gwyngalchu arian a'r heriau y mae'n eu creu. Yn benodol, rydym yn tynnu sylw at y posibilrwydd y caiff amheuaeth ei ddeall a'i ddefnyddio'n anghyson gan y rheiny sydd â rhwymedigaethau adrodd. Awgrymwn fod hyn yn cyfrannu at ddatgeliadau o ansawdd gwael. Efallai y bydd datgeliad awdurdodedig o ansawdd gwael yn dal i gael canlyniadau economaidd difrifol ar gyfer pwnc y datgeliad os yw mynediad at eu

harian yn gyfyngedig. Rydym yn dod i'r casgliad trwy gydnabod yr angen i'r system ddod o hyd i gydbwysedd teg rhwng buddiannau asiantaethau gorfodi'r gyfraith, adroddwyr a'r rhai sy'n destun datgeliad.

Pennod 8

- 1.44 Mae Pennod 8 yn archwilio cymhwyso'r prawf amheuaeth yng nghyd-destun y troseddau datgelu. Rydym yn amlinellu'r ymagwedd tuag at amheuaeth yng nghyd-destun rhwymedigaethau adrodd ac yn archwilio'r dehongliadau o'r prawf amgen o sail resymol i'w amau. Rydym yn dadansoddi'r ddau ddehongliad posibl o sail resymol i'w amau fel naill ai prawf gwrthrychol yn unig, neu brawf cymysg sy'n gofyn am amheuaeth goddrychol a sail wrthrychol.
- 1.45 Rydym yn ystyried ymagweddau awdurdodaethau eraill, gan ganolbwyntio ar Ganada sy'n gosod y trothwy ar gyfer adrodd ar sail resymol i amau ac yn darparu arweiniad ar ddangosyddion gwyngalchu arian. Rydym yn mynd ymlaen i ystyried a yw'r troseddau datgelu yn adrannau 330 a 331 o DdET yn pennu prawf gwrthrychol, tegwch ymagwedd o'r fath a'r canlyniadau tebygol ar gyfer nifer yr adroddiadau. Rydym yn dod i'r casgliad y gellir dadlau'n gryf bod y "sail resymol i amau" yng nghyd-destun adrannau 330 a 331 yn brawf hollol wrthrychol. Yn olaf, dywedwn fod dadleuon cryf i awgrymu bod y trothwy ar gyfer atebolrwydd yn rhy isel.

Pennod 9

- 1.46 Ym Mhennod 9, rydym yn casglu'n ynghyd yr holl ddadansoddiad ym Mhenodau 6 i 8 ac yn ystyried yr opsiynau ar gyfer diwygio. Rydym yn ystyried a ddylai "amheuaeth" gael ei ddiffinio yn Rhan 7 o DdET, ac yn nodi nifer o anawsterau wrth geisio gwneud hynny. Fodd bynnag, rydym yn gwahodd barn yr ymgynghoreion ynghylch a ddylid ei ddiffinio a sut.
- 1.47 Rydym yn cynnig yn amodol mai'r ymagwedd well fyddai i'r Llywodraeth gyhoeddi arweiniad ffurfiol dan bwerau statudol sy'n nodi'r ffactorau sy'n dangos amheuaeth. Rydym hefyd yn cynnig yn amodol y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno ffurflen ragnodedig yn unol ag adran 339 o DdET. Rydym yn gwahodd barn yr ymgynghoreion ar y ddau gasgliad hwn.
- 1.48 Er gwaethaf y cynigion hyn, nodwn yr achos ar gyfer diwygio'r trothwy adrodd a'r trothwy bai ar gyfer y troseddau datgelu i sail resymol i'w amau er mwyn gwneud y gyfundrefn yn fwy effeithiol. Rydym yn amlinellu'r manteision o newid y trothwy i ofyn am amheuaeth goddrychol a sail ategol gwrthrychol. Rydym yn cydnabod na all ymagwedd o'r fath gydymffurfio â darpariaethau'r 4^{edd} Gyfarwyddeb Gwyngalchu Arian ac nad yw'n glir a fyddai ymagwedd o'r fath yn cydymffurfio â FATF. Ar hyn o bryd, rhagwelwn y bydd y DU yn parhau i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y 4^{edd} Gyfarwyddeb Gwyngalchu Arian yn amodol ar delerau ein tynnu'n ôl o'r UE.
- 1.49 Mewn perthynas â'r troseddau gwyngalchu arian, daethom i'r casgliad, yn absenoldeb tystiolaeth gymhellol i'r gwrthwyneb, ni ddylid diwygio'r trothwy diffyg amheuaeth. Fodd bynnag, rydym yn cynnig amddiffyniad newydd ar gyfer y sector rheoledig. Pan nad oes gan unigolyn yn y sector rheoledig sail resymol dros amau bod yr eiddo hwnnw yn eiddo troseddol o fewn ystyr adran 340, ni fyddent yn cyflawni trosedd. Rydym yn dod i gasgliad amodol y byddai newid o'r fath yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar gyfanswm nifer y datgeliadau awdurdodedig (AGAau DAML).
- 1.50 Yn olaf, rydym yn ffurfio'r farn amodol na ddylid gwneud unrhyw newid i'r gyfundrefn ariannu terfysgaeth am ddau reswm. Yn gyntaf, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y

prif fater yn yr adroddiad yn ymwneud â chymhwysiad amheuaeth gan adroddwyr, y gellid eu datrys trwy gyfrwng canllawiau. Mae'r AGAau hynny sy'n gofyn am ganiatâd (AGAau DATF) yn cael eu cyflwyno mewn niferoedd is o ran ariannu terfysgaeth. Yn ail, mae amcanion y gyfundrefn adrodd ar ariannu terfysgaeth yn wahanol i wyngalchu arian a gallant gyfiawnhau trothwy is. Cydnabyddwn fod hyn yn creu gwahaniad cliriach rhwng y ddwy gyfundrefn ac yn gofyn am farn yr ymgynghoreion ynghylch a fyddai hyn yn creu problemau yn ymarferol.

Pennod 10

- 1.51 Mae Pennod 10 yn ystyried mater eiddo troseddol ac yn nodi problemau i'r sector rheoledig sy'n codi o'r gyfraith bresennol lle mae arian cyfreithlon yn cael ei gymysgu â chronfeydd troseddol. Yn benodol, rydym yn archwilio'r gyfraith achosion ar gronfeydd cymysg a'r problemau sy'n codi os ystyrir bod ychwanegu cronfeydd troseddol i gronfeydd cyfreithlon yn llygru'r pot cyfan. Rydym yn tynnu sylw at y problemau sy'n wynebu banciau a phynciau datgeliadau awdurdodedig pan fydd cyfrifon cyfan yn cael eu rhewi, hyd yn oed os yw'r amheuaeth yn ymwneud â rhan yn unig o'r arian mewn cyfrif.
- 1.52 Rydym yn cymharu ymagweddau at eiddo cymysg ar draws DET ac yn nodi ffordd bosibl o fynd ymlaen. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig gwarchodaeth statudol trwy amddiffyn banciau sy'n dewis clustnodi cronfeydd troseddol dan amheuaeth tra maent yn aros am benderfyniad ar ganiatâd. Gofynnwn bod ymgynghoreion i ymateb i'r cynnig amodol hwn.

Pennod 11

- 1.53 Ym Mhennod 11 rydym yn ystyried y cwmpas adrodd ar sail y gyfraith gyfredol. Ar y rhagdybiaeth bod ymagwedd gweithredu pob trosedd yn cael ei chadw, rydym yn archwilio ffyrdd y gellir gwella gwerth cudd-wybodaeth AGAau.
- 1.54 Rydym yn nodi rhestr o'r mathau o AGAau y mae rhanddeiliaid o'r farn eu bod o effaith neu werth bach. Rydym yn mynd ymlaen i ystyried rhinweddau newid deddfwriaethol i gynnwys y mathau hyn o AGAau, ond daethpwyd i'r casgliad amodol na fyddai hyn yn ymarferol. Byddai angen i unrhyw welliant deddfwriaethol sy'n diffinio 'esgus rhesymol' yn Rhan 7 o DdET fod ar ffurf rhestr gynhwysfawr. Gan y byddai hyn yn agored i newid, byddai ymagwedd o'r fath o bosib yn rhwystro hyblygrwydd gwerthfawr yn y system.
- 1.55 Rydym yn cynnig yn amodol y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi canllawiau statudol sy'n rhestru materion sy'n dangos y mathau o bethau y gellid eu hystyried yn 'esgus rhesymol' am fethu â datgelu. Gwahoddwn barn yr ymgynghoreion ynghylch a fyddai cyfarwyddyd o'r fath yn fuddiol wrth leihau nifer y AGAau o werth cudd-wybodaeth isel.

Pennod 12

- 1.56 Mae Pennod 12 yn edrych ar ystyr 'caniatâd' a phroblemau sy'n deillio o ddehongli'r term gan y rhai sydd â rhwymedigaethau adrodd. Rydym yn amlinellu'r problemau a nodwyd gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y maent yn credu sy'n codi o'r defnydd o'r term caniatâd yn DET. Rydym yn nodi'r canlyniadau cyfreithiol o roi caniatâd priodol ac yn ystyried geirio amgen a allai ddisgrifio'r broses o gael caniatâd yn well. Rydym yn ystyried yr opsiynau ar gyfer diwygio. Rydym yn cynnig yn amodol y dylai fod yn ofynnol yn DET fod y Llywodraeth yn cynhyrchu canllawiau ar y term

"caniatâd priodol" o dan Ran 7 o DdET ac yn gwahodd barn yr ymgynghoreion ar y mater.

Pennod 13

- 1.57 Mae Pennod 13 yn archwilio'r darpariaethau cyfredol ar gyfer meddu ar wybodaeth a'i rhannu mewn perthynas â gwyngalchu arian ac ariannu terfysgaeth. Rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd eraill o rannu gwybodaeth fel partneriaethau rhannu gwybodaeth ariannol. Rydym yn ystyried rhwymedigaethau sy'n codi o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018.
- 1.58 Rydym yn nodi barnau rhanddeiliaid ynghylch a yw'r darpariaethau presennol yn ddigonol. Rydym yn dadansoddi'r manteision a'r risgiau o ymestyn darpariaethau rhannu gwybodaeth i ganiatáu sefydliadau â rhwymedigaethau adrodd i rannu gwybodaeth gyda'i gilydd hyd yn oed pan na fydd trafodiad anarferol yn bodloni'r trothwy ar gyfer amheuaeth. Yn benodol, rydym yn edrych ar y risgiau o ddifreinio ariannol ac ystyriaethau diogelu data.
- 1.59 Daethom i'r casgliad bod dadleuon cryf yn erbyn caniatáu i sefydliadau'r sector preifat weithredu ar drothwy is nag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar gyfer meddu ar wybodaeth a datgelu gwybodaeth heb archwiliad allanol. Rydym yn ailadrodd y dadleuon a gyflwynir ym Mhenodau 6-9, sef bod yr amheuaeth eisoes ar drothwy isel. Rydym yn gwahodd barn yr ymgynghoreion ynghylch a oes angen neu os dymunir rhannu gwybodaeth cyn amheuaeth gan y rheiny yn y sector rheoledig, ac os felly, rydym yn gwahodd syniadau ar sut y gellid llunio darpariaeth o'r fath. Rydym hefyd yn gwahodd barn yr ymgynghoreion ynghylch a ddylid ehangu aelodaeth o'r bartneriaeth rannu gwybodaeth bresennol (yr Unol Tasglu Cudd-wybodaeth ar Wyngalchu Arian neu UTCWA).

Diwygiant tymor hirach

- 1.60 Ym Mhennod 14, rydym yn adolygu ein cylch gorchwyl cul a'r syniadau yr ydym wedi'u hystyried ar gyfer diwygio'r gyfundrefn ganiatâd cyfredol. Mae ein cynigion dros dro yn seiliedig ar y strwythur deddfwriaethol presennol, rhwymedigaethau'r UE a safonau rhyngwladol cytunedig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod modelau amgen yn bodoli. Mae'r DU yn un o nifer fechan o wledydd sy'n gweithredu cyfundrefn ganiatâd a thrwy'r papur hwn i gyd, rydym yn tynnu ar y gwahanol gyfundrefnau a fabwysiadwyd mewn nifer o awdurdodaethau eraill ar gyfer dadansoddiad cymharol.
- 1.61 Rydym yn cadarnhau nad ydym yn argymhell dileu'r gyfundrefn ganiatâd. Credwn y bydd yr addasiadau a gynigiwyd gennym yn gwella effeithlonrwydd ac yn sicrhau gwell cydbwysedd rhwng buddiannau asiantaethau gorfodi'r gyfraith, adroddwyr a'r rhai sy'n destun datgeliad. Fodd bynnag, rydym yn amlinellu sut y gall model heb ganiatâd edrych a sut y gallai weithredu yn ymarferol. Rydym yn archwilio manteision ac anfanteision gweithredu heb gyfundrefn ganiatâd.
- 1.62 Gwahoddwn barn ymgynghoreion ar gadw'r gyfundrefn bresennol. Yn ogystal, edrychwn ar gynigion eraill i wella'r gyfundrefn bresennol. Rydym yn ystyried a fyddai ychwanegu adroddiadau thematig yn fuddiol. Wrth wneud hynny, rydym yn archwilio gweithredu Gorchmynion Targedu Daearyddol yn UDA. Rydym yn gwahodd barn yr ymgynghoreion ynghylch a ddylai pŵer fodoli i wneud adrodd a chadw cofnodion ychwanegol a dargedir at drafodion penodol yn ofynnol.

CYDNABYDDIAETH

- 1.63 Er mwyn sicrhau bod gennym gafael trwyadl ar y problemau ymarferol sy'n rhan o'r gyfundrefn bresennol, rydym wedi ymgysylltu â nifer fawr o randdeiliaid yn ein trafodaethau cyn ymgynghori. Rydym yn ddiolchgar iddynt am nodi rhai o'r materion sy'n peri pryder a'u syniadau ar sut i wella'r system gyfredol.
- 1.64 Rydym yn arbennig o ddyledus i Rudi Fortson CF (Athro Gwadd yn Queen Mary, Prifysgol Llundain a bargyfreithiwr gweithredol, 25 Bedford Row) sydd wedi ymddwyn fel ymgynghorydd ar y prosiect hwn.
- 1.65 Paratowyd yr adroddiad yma gan David Connolly (rheolwr tîm), Lucy Corrin (cyfreithiwr tîm) a Rebecca Martin (cynorthwydd ymchwil). Cyfrannodd Alice Lepeople (cynorthwydd ymchwil) gwaith ymchwil amhrisiadwy yn ystod ein cyfnod cychwynol.